

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Local Government to the Finance Minister
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister

Cyllid Llywodraeth Leol Local Government Finance

Q11 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on any planned changes to the way in which local government in Wales is financed? OAQ0659(LGP)

C11 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ffordd y cyllidir llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ0659(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): I recently consulted on the issues to be addressed in moving to three-year revenue and capital settlements for local authorities in Wales. I will issue an action plan once I have been able to consider the responses to the consultation.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Ymgynghorais yn ddiweddar ar y materion yr ymdrinnir â hwy wrth symud i setliadau refeniw a chyfalaf tair blynedd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddaf yn cyhoeddi cynllun gweithredu ar ôl imi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cyllideb Llywodraeth Leol Local Government Budget

Q12 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on the budget provision for local government? OAQ0621(LGP)

C12 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb a ddarperir ar gyfer llywodraeth leol? OAQ0621(LGP)

Sue Essex: The published budget allocation for the local government main expenditure group will rise from £3.9 billion in 2006-07 to over £4 billion in 2008-09. This represents an increase of more than 12.7 per cent between 2005-06 and 2008-09.

Sue Essex: Bydd dyraniad y gyllideb a gyhoeddwyd ar gyfer prif grŵp gwariant llywodraeth leol yn cynyddu o £3.9 biliwn yn 2006-07 i dros £4 biliwn yn 2008-09. Mae hyn yn gynydd o dros 12.7 y cant rhwng 2005-06 a 2008-09.

Pecynnau Gwybodaeth am Eiddo Home Information Packs

C13 Rhodri Glyn Thomas: Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda Llywodraeth y DU ynghylch gweithredu gofynion pecynnau gwybodaeth am eiddo? OAQ0614(LGP) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.*

Q13 Rhodri Glyn Thomas: What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the implementation of the requirements of home information packs? OAQ0614(LGP) *Transferred for written answer by the Minister for Social Justice and Regeneration.*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Nid yw'r darpariaethau ynghylch cyflwyno'r pecynnau gwybodaeth am eiddo wedi eu datganoli. Fodd bynnag, mae dyletswydd ar Lywodraeth y DU i ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gwneud unrhyw reoliadau sy'n ymwneud ag eiddo preswyl yng Nghymru. Yr wyf yn disgwyl iddi ymgynghori â'r Cynulliad yn fuan.

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): The provisions concerning the introduction of home information packs are not devolved. However, the UK Government has a duty to consult the National Assembly before making any regulations that relate to residential properties in Wales. I expect the Assembly to be consulted shortly.

Lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghymru Levels of Council Tax in Wales

Q14 David Melding: Will the Minister make a statement on the levels of council tax in Wales? OAQ0620(LGP)

C14 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau'r dreth gyngor yng Nghymru? OAQ0620(LGP)

Sue Essex: Local authorities are currently setting their budgets and have until 10 March 2006 to do so. The statistical release detailing the council tax levels should be published on 23 March 2006.

Sue Essex: Mae awdurdodau lleol yn pennu eu cyllidebau ar hyn o bryd, a disgwylir iddynt wneud hyn erbyn 10 Mawrth 2006. Bwriedir cyhoeddi'r ystadegau ar lefelau'r dreth gyngor ar 23 Mawrth 2006.

Blaenoriaethau Llywodraeth Leol yng Ngheredigion Priorities for Local Government in Ceredigion

Q15 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on her priorities for local government in Ceredigion? OAQ0622(LGP)

C15 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol yng Ngheredigion? OAQ0622(LGP)

Sue Essex: I concluded a policy agreement with Ceredigion County Council in December 2004, which sets out the improvements that the council, as agreed with the Welsh Assembly Government, will deliver by 2007. The council's performance in 2004-05 was sufficiently strong for it to receive the second instalment of the performance incentive grant of £781,251

Sue Essex: Ym mis Rhagfyr 2004, penderfynwyd ar gytundeb polisi gyda Chyngor Sir Ceredigion, sy'n amlinellu'r gwelliannau y bydd y cyngor, yn unol â'r cytundeb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn eu cyflawni erbyn 2007. Bu perfformiad y cyngor yn 2004-05 yn ddigon da i ennill iddo ail randaliad y grant cymell perfformiad o £781,251.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

Addysg Gynradd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru Primary Education in Mid and West Wales

Q10 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on primary school education in Mid and West Wales? OAQ701(ELL)

C10 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg ysgol gynradd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ701(ELL)

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): I want primary school pupils in Mid and West Wales to receive education of the highest standard, in efficiently managed schools, housed in buildings that are well maintained and fit for the delivery of the national curriculum. Substantial funding is being invested by the Assembly Government towards achieving this outcome.

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Yr wyf am weld disgyblion ysgolion cynradd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cael addysg o'r safon orau, mewn ysgolion a reolir yn effeithlon, sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n addas ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn buddsoddi swm sylweddol tuag at gyflawni hyn.

*Tynnwyd cwestiynau 11 a 12, OAQ698(ELL) ac OAQ736 (ELL), yn ôl.
Questions 11 and 12, OAQ698(ELL) and OAQ736(ELL), were withdrawn.*

Anghenion Addysgol Arbennig Special Educational Needs

Q13 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on special educational needs? OAQ713(ELL)

C13 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am anghenion addysgol arbennig? OAQ713(ELL)

Jane Davidson: The SEN code of practice for Wales 2002 outlines the statutory framework and explains the procedures to be adopted in support of pupils with special educational needs. We are currently developing an inclusion policy and performance framework for Wales that supports all children and young people with additional learning needs.

Jane Davidson: Mae cod ymarfer AAA Cymru 2002 yn amlinellu'r fframwaith statudol ac mae'n egluro'r gweithdrefnau i'w mabwysiadu i gynorthwyo disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Ar hyn o bryd, yr ydym yn datblygu polisi cynhwysiant a fframwaith perfformiad i Gymru sy'n cefnogi pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Colegau Amaethyddol Land-based Colleges

Q14 Brynle Williams: Will the Minister make a statement on land-based colleges in Wales? OAQ754(ELL)

C14 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am golegau amaethyddol yng Nghymru? OAQ754(ELL)

Jane Davidson: The Assembly Government is committed to maintaining a viable network of land-based provision in Wales, taking into account the recommendations of ELWa's

Jane Davidson: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i sicrhau rhwydwaith dichonadwy o gyrsgiau amaethyddol yng Nghymru, gan ystyried

2003 review. The first stage of implementing its recommendations, concentrating full-time level 3 agricultural provision at two institutions, namely Coleg Sir Gâr and Coleg Llysfasi, commenced in September 2004.

argymhellion adolygiad ELWa yn 2003. Dechreuwyd y cam cyntaf o weithredu ei argymhellion, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth cyrsiau amaethyddol lefel 3 amser llawn mewn dau sefydliad, sef Coleg Sir Gâr a Choleg Llysfasi, ym mis Medi 2004.

Sefyllfa Ariannol AALLau **The Financial Position of LEAs**

Q15 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on the financial position of LEAs in Wales? OAQ695(ELL)

C15 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefyllfa ariannol AALLau yng Nghymru? OAQ695(ELL)

Jane Davidson: Local authorities in Wales set education budgets, excluding ELWa grant for post-16 provision, totalling £1,845 million in 2005-06, which is an increase of £102 million, or 5.9 per cent, on 2004-05. Gross schools expenditure, inclusive of expenditure financed by grants, was budgeted to increase by £97 million, or 5 per cent, to £2,040 million.

Jane Davidson: Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn pennu cyllidebau addysg, ac eithrio grant ELWa ar gyfer darpariaeth ôl-16, sef cyfanswm o £1,845 miliwn yn 2005-06, sy'n gynnydd o £102 miliwn, neu 5.9 y cant, ers 2004-05. Bu cynnydd o £97 miliwn, neu 5 y cant, yn y gyllideb ar gyfer gwariant crynswth ar ysgolion, yn cynnwys gwariant a ariennir drwy grantiau, sy'n golygu cyfanswm o £2,040 miliwn.